# Diogelu Corfforaethol: Mae'n Gyfrifoldeb i Bawb



---

***Mae diogelu yn bwysig ac yn ddyletswydd a chyfrifoldeb i bob un ohonom fel staff Cyngor Sir Ynys Môn. Beth bynnag eich gwaith, tîm, neu gwasanaeth, mae gan bob aelod o staff rôl bwysig er mwyn cadw plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yn ddiogel rhag niwed.***

---

## Beth yw Diogelu Corfforaethol?

---

***Mae diogelu corfforaethol yn golygu bod y Cyngor yn defnyddio dull system gyfan er mwyn diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod, cam-drin domestig a radicaleiddio. Mae'n golygu ymgorffori diogelu ym mhopeth yr ydym yn ei wneud – o bolisi a chomisiynu i ddarparu gwasanaethau ac ymgysylltu cymunedol.***

---

## Hyfforddiant Mandadol – ‘Diogelu Grŵp A’




---


*Fel rhan o’n cyfrifoldebau diogelu statudol, **mae’n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau’r** hyfforddiant ‘Diogelu Grŵp A’ ar y Gronfa Ddysgu yn ystod yr **Wythnos Ddiogelu (10-14 Tachwedd 2025).***

*Ni fydd y cwrs yn cymryd mwy nag 20 munud i’w gwblhau ac mae bellach yn **orfodol i holl weithwyr y Cyngor.***

***Cliciwch yma i agor y modiwl.***

---

# Modiwlau Diogelu Mandadol Eraill




[Cliciwch yma i gael mynediad i Fodiwlau Diogelu]

---

***Mae'r modiwlau hyn ar gael ar y Gronfa Ddysgu a gallwch gwblhau yn eich amser eich hun. Maent yn hanfodol er mwyn ein cynorthwyo i adnabod ac ymateb yn briodol i bryderon diogelu mewn perthynas ag ystod eang o faterion sy'n effeithio ein cymunedau.***

*Beth am ddefnyddio'r Wythnos Ddiogelu fel cyfle i ddiweddaru eich gwybodaeth ac ail-gadarnhau ein cyd-ymrwymiad i gadw pobl yn ddiogel.*

---

## Cyfarfod y Bwrdd Gweithrediadau Diogelu Corfforaethol




*1 - **Rhai o aelodau'r bwrdd.***

---

***Mae'r Bwrdd Gweithrediadau Diogelu Corfforaethol yn grŵp o staff traws-adrannol sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn gyrru agenda diogelu'r Cyngor. Maent yn cefnogi datblygiad polisi, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o fewn pob gwasanaeth.***

***Byddent i'w weld yn ystod yr Wythnos Ddiogelu – ac maent wastad yn chwilio am aelodau newydd! Os ydych yn angerddol ynghylch diogelu a'ch bod yn dymuno cyfrannu, byddent yn falch o glywed gennych.***

***Aelodau Presennol:***

---


---

- *Gerallt Roberts, Cadeirydd (Addysg)*
- *Daron Owens, Is-Gadeirydd (Partneriaeth Diogelwch Cymunedol)*

- *Sian Peacock (Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- *Nerys Evans (Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- *Julie Jones (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)*
- *Rachel Williams (Gwasanaethau Cymdeithasol)*
- *Llinos W William (Tai)*
- *Llinos M Roberts (Adnoddau)*
- *Arwel Jones (Tai)*
- *Nonn G Hughes (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)*
- *Non M Hughes (Trawsnewid/AD)*
- *Teressa Backhouse (Trawsnewid/Hyfforddiant)*
- *Eirian Lewis (Llyfrgelloedd)*

---

## Dewch i ddweud helo!



***Bydd gennym stondin dros dro yn y brif dderbynfa ym Mhrif Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, bob amser cinio (12-2yp) trwy gydol yr Wythnos Ddiogelu. Galwch heibio er mwyn:***

- *Gofyn cwestiynau am ddiogelu*
- *Derbyn cymorth i gael mynediad at y Gronfa Ddysgu*
- *Derbyn adnoddau a chanllawiau*
- *Cyfarfod aelodau'r Bwrdd Gweithrediadau Diogelu Corfforaethol*

*Beth am barhau i wneud diogelu'n rhan o'n diwylliant o ddydd i ddydd – gan fod **diogelu'n gyfrifoldeb i bawb**.*

***Dylid anfon unrhyw atgyfeiriadau/ymholiadau at TeuluMon@ynysmon.llyw.cymru***